

## 2013 Rhif 828 (Cy. 99)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont a Stryd Rhosmaen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* 11 Ebrill 2013

*Yn dod i rym* 17 Ebrill 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall,(2) yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Ebrill 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont a Stryd Rhosmaen, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 17 Ebrill 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn o Gefnffordd yr A483 yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, a enwir yn Heol y Bont mewn un rhan ac yn Stryd Rhosmaen mewn rhan arall, sy'n ymestyn o bwynt wrth ben gogledd Pont Llandeilo hyd at bwynt wrth ben deheuol ei chyffordd â Heol Newydd a Heol Cilgant.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad a Chyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

### **Cymhwyso**

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 11 Ebrill 2013

*R Morgan*

### **R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.